CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 22 Tachwedd 2012

Rhif Union: 01824 706204

ebost: dcc_admindenbighshire.gov.com.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 30 TACHWEDD 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA IA, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

I benodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

**2 PENODI IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

I benodi Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

**3 YMDDIHEURIADAU**

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod yma.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 8)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar Fedi 14, 2012 (copi'n amgaeedig).

**7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

I nodi presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned ac i dderbyn eu hadroddiadau.

**8 CANLLAWIAU DIWYGIEDIG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 9 - 10)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeedig) yn hysbysu aelodau o gyhoeddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganllawiau diwygiedig ar gyfer aelodau etholedig ynglŷn â'r Cod Ymddygiad.

**9 PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

I ystyried adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro'n nodi'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Hydref 4, 2012.

**10 CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

I dderbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro ac i ystyried pynciau sydd i'w trafod yng Nghynhadledd Safonau 2013.

**11 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2011/2012** (Tudalennau 11 - 16)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeedig) yn hysbysu aelodau o gyhoeddi Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2011/12.

**12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei gynllunio ar gyfer 10.00 a.m. ar ddydd Gwener, Ionawr 11, 2013 yn Ystafell Bwyllgora, Tŷ Nant, Ffordd Plas Nant, Prestatyn.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Cymeradwyir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o'r eitem(au) busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf yn cael ei datgelu iddyn nhw.

**13 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 17 - 18)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeedig) yn darparu trosolwg o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn erbyn aelodau.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Mr. Wayne Roberts, Ian Trigger, Ms Margaret Medley a/ac Mrs Paula White

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Bill Cowie
Y Cynghorydd Colin Hughes

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1, Tŷ Nant, Ffordd Llys Nant, Prestatyn ddydd Gwener, 14 Medi 2012 am 10.00yb.

**YN BRESENNOL**

C. B. Halliday (Cadeirydd), Ms M Medley, Mrs P White a G F Roberts ynghyd â'r Cynghorwyr David Jones a Bill Cowie

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Swyddog Monitro (GW), y Dirprwy Swyddog Monitro (LJ) a'r Swyddog Gwasanaethau Democratig (RAH).

Roedd clerc Cyngor Tref Prestatyn, Nigel Acott, yn bresennol fel sylwedydd.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Roedd y Cynghorydd Colin Hughes wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau i'r cyfarfod.

Roedd y Swyddog Monitro (SM) wedi rhoi gwybod hefyd i'r Pwyllgor fod y cyfieithydd a drefnwyd i ddarparu cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Democratig ar fore'r cyfarfod i ddweud na fyddai'n gallu dod oherwydd argyfwng yn y teulu. Nid oedd digon o amser gan y Gwasanaethau Democratig i drefnu cyfieithydd arall i ddirprwyo ac felly byddai'r cyfarfod yn mynd rhagddo heb ddarparu cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg.

### 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Bu'r Pwyllgor yn archwilio cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 13 Gorffennaf 2012 am gywirdeb a materion yn codi. Amlygodd Ms Margaret Medley ei bod wedi cael ei galw'n 'Mrs' ar gam, a nodwyd hyn i'w ddiwygio. Cymeradwyodd y Pwyllgor fod y cofnodion yn gywir fel arall.

Roedd y Pwyllgor wedi deall o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor y byddai rhestr o amseroedd a dyddiadau cynghorau tref a chymuned yn cael ei rhyddhau i'r Pwyllgor, ond nad oedd neb wedi mynd ar drywydd hyn eto. Cadarnhaodd y SM y byddai hyn yn cael ei astudio ac y byddai rhestr wedi'i diweddaru'n cael ei chylchredeg cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

Cyfeiriodd Mr Geraint Roberts at y cofnodion wrth nodi, er bod y Cyngor yn gorfod talu'r cyfraddau a osodir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fod gan aelodau'r Cyngor ddewis personol wrth bennu a oeddent yn dymuno hawlio'r treuliau dyledus. Awgrymodd y dylid gofyn i'r aelodau a oeddent yn dymuno cael y gydnabyddiaeth ariannol y gallant ei hawlio bob blwyddyn, neu beidio, oherwydd byddai hyn yn rhoi gwell cyfle i'r cynghorwyr ildio eu hawl petaent yn teimlo fel gwneud hynny. Dywedodd y SM y byddai'n archwilio'r posibilrwydd hwn gyda Steve Price, y Rheolwr Gwasanaethau Democratig, a chydag Adran Taliadau'r Cyngor, ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y SM fod y Cyngor Sir wedi cytuno i ailbenodi'r Cynghorydd David Jones a Mrs Paula White i wasanaethu tymhorau ychwanegol fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y trefniadau i ddisodli Mr Clive Halliday a Mr Geraint Roberts ar y Pwyllgor, am fod tymhorau'r ddau aelod ar fin dod i ben ac na fyddai'r naill aelod na'r llall yn gymwys i'w ailbenodi. Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau y byddai'r Cynghorwyr Bill Cowie, Colin Hughes a Martyn Holland yn cael eu penodi i banel penodiadau i ystyried ceisiadau am y ddwy swydd wag gynrychiadol leyg. Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai hysbysebion am y swyddi gwag hyn yn cael eu cyhoeddi yn yr wythnos yn dechrau ar 10 Medi.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn y Cofnodion a chymeradwyo eu bod yn gofnod cywir.*

**5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Roedd y Cynghorydd David Jones wedi bod yn ddiweddar mewn cyfarfod cadeiryddion yn Neuadd y Sir a dywedodd fod aelodau cynghorau cymunedol wedi sôn am effeithiolrwydd y cadeirydd. Pwysleisiodd fod angen i gynghorau tref a chymuned hefyd ymddwyn yn broffesiynol wrth gyflawni eu dyletswyddau a nododd Ms Medley bwysigrwydd hyfforddiant effeithiol i gadeiryddion i hwyluso hyn. Dywedodd y SM fod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad wedi cael blaenoriaeth yn ddiweddar ond y byddai'n ystyried posibilrwydd trefnu hyfforddiant i gadeiryddion cynghorau tref a chymuned yn debyg i'r hyfforddiant a gynigir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gadeiryddion pwyllgorau Cyngor Sir Ddinbych.

Dywedodd y SM ei bod yn bosibl i gynrychiolydd o'r Pwyllgor Safonau ymweld â chyngor tref neu gymuned a'i arsylwi os oedd problemau mynych gydag ymddygiad aelodau, ac awgrymodd hefyd fod aelodau'r Pwyllgor Safonau'n atgoffa aelodau cynghorau tref a chymuned o'u rhwymedigaethau i roi gwybod am achosion o dorri'r Cod Ymddygiad. Cytunwyd, ar gyfer y tymor hir, na fyddai effeithiolrwydd cynghorau tref a chymuned yn cael ei sicrhau heblaw bod eu cadeiryddion wedi'u hyfforddi'n dda a bod ganddynt hyder yng ngweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD** – nodi'r sefyllfa.*

**6 PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Roedd Mr Roberts wedi bod i Fforwm Safonau Gogledd Cymru ym Modlondeb yng Nghonwy ar 17 Gorffennaf, a chylchredodd ddiweddariad o'r pynciau a drafodwyd, gan gynnwys hyfforddiant aelodau, datgelu collfarnau troseddol aelodau a

mynediad cyhoeddus at fforymau. Canmolwyd Cyngor Sir Ddinbych am ei ddull o wneud hyfforddiant safonau'n orfodol i bob aelod, ac anogwyd cynghorau eraill i wneud yr un peth. Dywedodd y SM fod yr awgrym o hyfforddiant gorfodol wedi'i groesawu'n frwd, yng nghyfarfod diweddaraf ACSES Cymru o'r 22 Swyddog Monitro i gyd yng Nghymru. Deilliodd awgrym hefyd o gyfarfod ACSES Cymru, sef y gallai Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau ledled Cymru ysgrifennu at aelodau nad ydynt yn mynychu i roi gwybod am bwysigrwydd mynychu digwyddiadau hyfforddi.

Cadarnhaodd Mr Roberts y byddai Fforwm Safonau Gogledd Cymru'n gwahodd Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau yn unig i gyfarfodydd yn y dyfodol, gydag un bleidlais yn cael ei rhoi i bob awdurdod lleol. Byddai gofyn i Swyddogion Monitro ddarparu agendâu i'r Fforwm yn y dyfodol, a chadarnhaodd y SM y byddai Swyddogion Monitro o awdurdodau lleol Gogledd Cymru'n cyfarfod ar 17 Medi ac y byddai gosodiad agendâu'n cael ei drafod. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i Mr Roberts am fynd i gyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru yn ei le, a hefyd am gymryd yr amser i ysgrifennu crynodeb defnyddiol iawn.

***PENDERFYNWYD*** *– nodi'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.*

**7 DIGWYDDIADAU HYFFORDDI COD YMDDYGIAD**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) adroddiad a oedd yn rhoi manylion y digwyddiadau hyfforddi Cod Ymddygiad a oedd yn cael eu cynnig i bob cyngor tref a chymuned ar ôl llwyddiant digwyddiad tebyg a drefnwyd i Gynghorwyr Sir ar ôl yr etholiad. Cylchredwyd rhestr o ddigwyddiadau a drefnwyd a gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor Safonau i ddod er mwyn cynnig budd eu profiad i'r rheini a oedd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant. Cadarnhawyd pwy a fyddai'n mynd i'r digwyddiadau hyfforddi fel isod:

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher 26 Medi, Llangollen | Neb ar gael |
| Dydd Mercher 3 Hydref, Corwen | GF Roberts |
| Dydd Llun 8 Hydref, y Rhyl | P White, DE Jones |
| Dydd Llun 22 Hydref, y Rhyl | P White, DE Jones |
| Dydd Mercher 21 Tachwedd, Llanelwy | M Medley, DE Jones, B Cowie |
| Dydd Mercher 5 Rhagfyr, Llanelwy | M Medley, DE Jones, B Cowie |
| Dydd Mercher 12 Rhagfyr, Rhuthun | DE Jones |
| Dydd Iau 20 Rhagfyr, Rhuthun | DE Jones |

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant Cod Ymddygiad a bod Aelodau'n mynychu'r digwyddiadau y cytunwyd arnynt.*

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhaodd y SM y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10yb ar 19 Hydref ym Mhrestatyn. Roedd cyfnodau swydd y Cadeirydd, Mr Clive Halliday, a'r Is-gadeirydd, Mr Geraint Roberts, ar fin dod i ben ar ddiwedd mis Hydref, ond dywedodd y SM y byddai'r ddau'n cael eu hystyried o hyd i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau ac y dylent fynd i'r cyfarfod nesaf. Dywedodd Mrs Pauline White na fyddai'n gallu dod ar 19 Hydref a chynigiodd ei hymddiheuriadau ymlaen llaw.

***PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor yn nodi dyddiad y cyfarfod nesaf.*

**9 CWYNION COD YMDDYGIAD**

Symudodd y cyfarfod i Ran 2 er mwyn cael adroddiad cyfrinachol gan y SM a oedd yn rhoi trosolwg ar y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn gysylltiedig â chynghorau sir, tref a chymuned yn Sir Ddinbych, yn unol ag adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Rhoes y SM wybod am y cynnydd diweddaraf yn yr ymchwiliad i bob cwyn a restrwyd yn yr adroddiad a bu'r Pwyllgor yn trafod nifer o faterion a oedd yn deillio o'r cwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon.

Eglurodd y SM hefyd y trefniadau newydd yn deillio o Adroddiad Blynyddol 2011/12 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a nododd y byddai achosion nad oedd yr Ombwdsmon yn bwriadu mynd ar eu trywydd yn cael eu cyfeirio at Swyddogion Monitro neu Bwyllgorau Safonau er mwyn rhoi cyfle am ymchwiliad lleol cyn cau cwyn.

***PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10yb.

| | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | : | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | : | **30 Tachwedd 2012** |
| **Awdur yr Adroddiad** | : | **Y Swyddog Monitro** |
| **Teitl** | : | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Canllawiau Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i Aelodau fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar y Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae gan yr Ombwdsmon hawl o dan adran 68 Deddf Llywodraeth Leol 2000 i gyflwyno canllawiau i aelodau awdurdodau lleol ynghylch materion sy'n berthnasol i'w hymddygiad.

2.2 Fis Ebrill 2010, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ei ganllawiau i aelodau awdurdodau lleol Cymru ynghylch y Côd Ymddygiad.

2.3 Roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod, ar ôl cyhoeddi'r canllawiau yn 2010, y gallai fod angen cyflwyno canllawiau pellach yn y dyfodol.

2.4 Cyflwynodd yr Ombwdsmon ganllawiau diwygiedig fis Medi 2012. Mae'r canllawiau'n rhai statudol, sy'n golygu bod yn rhaid i aelodau a Phwyllgorau Safonau dalu sylw iddyn nhw wrth ystyried materion ynghylch ymddygiad.

2.5 Mae'r canllawiau diwygiedig wedi'u paratoi mewn dwy ddogfen ar wahân. Y cyntaf o'r rhain yw canllawiau ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Bwrdeistrefi Sirol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Yr ail ddogfen yw canllawiau ar gyfer aelodau o Gynghorau Cymuned. Gellir cael y dogfennau drwy'r dolenni canlynol:

- Cynghorau Sir a Bwrdeistrefi Sirol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Cynghorau Cymuned

2.6 Mae'r Ombwdsmon o'r farn y bydd cael canllawiau gwahanol ar gyfer Cynghorwyr Cymuned, gan ddefnyddio enghreifftiau sy'n berthnasol iddyn nhw'n benodol, yn gwneud y canllawiau'n gliriach.

2.7 Mae dwy fersiwn y canllawiau diwygiedig yn cyfeirio at weithdrefn newydd yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion pan fydd yn cyfeirio pob mater y mae’n ystyried peidio ag ymchwilio iddo at Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau i’w hymchwilio’n lleol.

2.8 Mae’r Ombwdsmon hefyd yn cyfeirio at weithdrefnau datrys yn lleol megis y Protocol Hunan Reoleiddiad sydd wedi’i fabwysiadu gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n gwneud yn glir yn y ddogfen ganllawiau ar gyfer Cynghorwyr Cymuned fod hyn i fod yn berthnasol i brif gynghorau i gychwyn ond y gallai fod ar gael i Gynghorwyr Cymuned yn y man.

2.9 Mae'r canllawiau diwygiedig yn cynnwys enghreifftiau mwy cyfoes ac mae testun ac enghreifftiau'r ddwy ddogfen yn gwahaniaethu ychydig.

2.10 Mae’r prif newid yn sylwedd y canllawiau yn yr adran yn ymdrin â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill.

Yn ei ganllawiau blaenorol, roedd yr Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir fod trafodaeth wleidyddol gref yn dderbyniol ond y dylai gael ei chynnal mewn ffordd barchus heb ymosodiadau personol ac ymddygiad tramgwyddus. Yn ei ganllawiau diwygiedig, mae’r Ombwdsmon wedi talu sylw i achos diweddar yn yr Uchel Lys lle cafod penderfyniad Panel Dyfarnu ei wyrdroi ar sail fod rhagor o amddiffyniad i fynegi barn pan fo’r sylwadau yn rhai gwleidyddol eu natur. Mae’r Ombwdsmon yn dangos fod yn rhaid i’r trothwy cyn y bydd yn cychwyn ymchwilio cwynion o’r fath dalu sylw i’r ffaith fod yn rhaid i aelodau gael ‘croen tewach’ wrth ymdrin â sylwadau gwleidyddol.

## 3. <u>ARGYMHELLIAD</u>

3.1 Fod y Pwyllgor yn nodi cynnwys canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon.

| | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i'r** | : | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | : | **30 Tachwedd 2012** |
| **Awdur yr Adroddiad** | : | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl** | : | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2011/2012** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i aelodau am fater Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2011/2012.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae Panel Dyfarnu Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o waith y Panel Dyfarnu ac yn cynnwys crynodebau o'r achosion a'r apeliadau y mae'r Panel wedi ymdrin â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yn http://wales.gov.uk/apwsubsite/APW-PDC/?skip=1&lang=cy

2.2 Ceir dwy swyddogaeth statudol i'r Panel Dyfarnu. Y cyntaf yw ffurfio tribiwnlysoedd achosion neu achosion interim i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliad i honiadau fod aelod wedi methu ufuddhau i God Ymddygiad yr awdurdod perthnasol. Y Panel Dyfarnu sy'n ystyried yr honiadau mwyaf difrifol o doriadau i God Ymddygiad yr Aelodau. Yr ail swyddogaeth statudol yw ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgorau Safonau lleol yn dilyn atgyfeiriad i'r pwyllgorau hynny gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.3 Yn ystod 2011/12, cafodd y Panel 4 atgyfeiriad newydd yn unig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a throsglwyddwyd 8 achos o'r flwyddyn ariannol flaenorol 2010-11. Cadwyd y Panel yn brysur iawn gan un achos a drosglwyddwyd o'r flwyddyn flaenorol sy'n gysylltiedig â Chyngor Sir y Fflint. Ni ddylid cymryd nifer gymharol isel yr atgyfeiriadau newydd fel arwydd o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Panel.

2.4 Ymddengys bod nifer isel yr achosion newydd yn arwydd y bu gostyngiad yn nifer yr achosion difrifol y teimla'r Ombwdsmon reidrwydd i'w cyfeirio at y Panel. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod yr aelodau newydd a benodwyd i'r Panel yn yr hydref 2010 wedi cael llai o gyfleoedd i eistedd ochr yn ochr â chydweithwyr mwy profiadol. O ganlyniad, cytunodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddar y dylai rhai o'r aelodau panel mwy profiadol a benodwyd yn y lle cyntaf yn 2002 gael

ailbenodiad cyfyngedig am gyfnod o dair blynedd hyd at 2015 er mwyn i'r aelodau newydd allu eistedd gydag aelodau gwreiddiol a dysgu o'u profiadau hwy. Ystyria'r Panel y bydd yr ailbenodiad hwn o gymorth i roi sefydlogrwydd i'r Panel wrth drosglwyddo'i faterion gweinyddol i'r Uned Weinyddol a Thribiwnlysoedd yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Panel yn cynnwys 7 aelod gyda chymwysterau cyfreithiol a 6 aelod lleyg.

2.5 Ers i'r Panel Dyfarnu gael ei gychwyn ym mis Hydref 2002 hyd at 31 Mawrth 2012, mae wedi gwneud penderfyniadau mewn perthynas â 37 o achosion a gyfeiriwyd ato gan yr Ombwdsmon a 10 apêl yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgorau Safonau. O ran yr achosion a gyfeiriwyd yn uniongyrchol ato, gwnaeth y Panel y canfyddiadau canlynol a fynegir fel canran o'r cyfan.

| | |
|---|---|
| Anghymwyster | 19% |
| Gwaharddiad | 49% |
| Gwaharddiad rhannol | 5% |
| Cerydd | 5% |
| Toriad ond ni chymerir camau | 14% |
| Dim toriad | 8% |

2.6 Mewn perthynas ag apeliadau a gyfeiriwyd ato o'r Pwyllgorau Safonau yn ystod yr un cyfnod, gwnaeth y Panel y penderfyniadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwaharddiad | 60% |
| Cerydd | 30% |
| Dim toriad | 10% |

2.7 O'r holl achosion a gyfeiriwyd ato rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2012, y toriad mwyaf cyffredin a ganfu'r Panel oedd dwyn anfri ar swydd aelod neu awdurdod. Yn gydradd ail oedd methu dangos parch nac ystyriaeth ynghyd â methiant aelod i ddatgelu budd ac/neu dynnu'n ôl o gyfarfod.

2.8 O'r achosion a gyfeiriwyd at y Panel a'r rhai a drosglwyddwyd o'r flwyddyn flaenorol, penderfynwyd ar 6 achos yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12 ac mae crynodebau'r 6 achos hynny yn yr adroddiad.

2.9 Roedd 2 achos yn destun apêl gan y Pwyllgorau Safonau yn ystod y flwyddyn berthnasol. Yn y ddau achos, cadarnhaodd y Tribiwnlys Apêl benderfyniad y Pwyllgor Safonau lleol. Fodd bynnag, roedd un o'r achosion hynny'n destun Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys a gwrth-drowyd penderfyniadau'r Tribiwnlys Apêl a'r Pwyllgor Safonau. Roedd yr apêl hon yn gysylltiedig ag achos y Cynghorydd Calver o Gyngor Cymuned Maenorbŷr a gafodd gerydd gan ei Bwyllgor Safonau lleol mewn perthynas â chynnwys deunydd a bostiwyd ganddo ar ei wefan. Canfu'r Pwyllgor Safonau a'r Tribiwnlys Apêl fod y deunyddiau hyn wedi dangos diffyg parch at aelodau unigol o'r Cyngor Cymuned ac at y Cyngor Cymuned fel corff.

2.10 Canfu'r Uchel Lys fod y cerydd a osodwyd ar y Cynghorydd Calver yn torri ar ei hawliau i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

2.11 Yn dilyn hynny, diwygiodd yr Ombwdsmon yr arweiniad a roddodd i'w aelodau yng ngoleuni'r achos hwn.

2.12 Fel atodiad i'r adroddiad, darparodd y Panel grynodeb o'r cosbau a osodwyd gan y tribiwnlysoedd achosion a'r tribiwnlysoedd apêl yn y cyfnod o fis Hydref 2002 i fis Mawrth 2012. Mae hwn ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr aelodau'n nodi'r adroddiad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Atodiad

## Crynodeb o'r Cosbau a Bennwyd gan y Tribiwnlysoedd Achos a'r Tribiwnlysoedd Apêl yn y Cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2012

| Cosb | Cyfnod | Nifer y penderfyniadau |
|---|---|---|
| Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl | | |
| Anghymhwyso | 3 blynedd | 1 |
| | 2 flynedd 6 mis | 1 |
| | 2 flynedd | 1 |
| | 1 flwyddyn 6 mis | 1 |
| | 1 flwyddyn | 3 |
| Gwahardd | 12 mis | 6 |
| | 9 mis | 4 |
| | 6 mis | 4 |
| | 4 mis | 1 |
| | 3 mis | 2 |
| | 2 fis | 4 |
| | 1 mis | 3 |
| Gwahardd yn rhannol | 3 mis | 1 |
| | 7 wythnos | 1 |
| Cerydd | - | 5 |
| Torri'r cod - dim camau | - | 5 |
| Heb dorri'r cod | - | 4 |
| Wedi eu tynnu yn ôl | - | 2 |

| Apelau | |
|---|---|
| Cadarnhau/gwrthod y dyfarniad | 9 (90%)/1 (10%) |
| Cadarnhau'r gosb | 7 |
| Argymell cosb wahanol | 1 cynnydd/1 gostyngiad |
| Heb dderbyn<br>• Allan o amser<br>• Heb fod o fewn awdurdodaeth | <br>1<br>1 |



Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem Agenda 13

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag